# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
## (Chwefror – Mehefin 2022)

## Bro Peris.



# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy’n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i’r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy’n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **23** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol ym Mro Peris cyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda’r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o’r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i’r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i’r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy’r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Bro Peris


## 3.1 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Bro Peris


3.2 Derbyniwyd **312** o ymatebion i'r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Bro Peris










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
224
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
183
DARLLEN CYMRAEG
177
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
170
METHU DEALL CYMRAEG
33
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
22
0
50
100
150
200
250



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
206
SEISNIG
20
ALBANAIDD
4
PRYDEINIG
63
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
10
ARALL:
9
0
50
100
150
200
250


BETH YW EICH HIL?
GWYN
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
292
1
18
1
0
50
100
150
200
250
300
350


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
BWDHAIDD
HINDW
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
120
2
1
94
70
25
0
20
40
60
80
100
120
140


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYNES HOYW / LESBIAN
DYN HOYW
DEURYWIOL (BISEXUAL)
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
256
3
5
5
39
2
0
50
100
150
200
250
300


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YNDI
NA
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
2
285
22
0
50
100
150
200
250
300


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
NAC YDW
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
24
263
25
0
50
100
150
200
250
300

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Peris

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Peris.

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Llanberis | **66** |
| • Llanrug | **55** |
| • Deiniolen | **53** |
| • Waunfawr | **28** |
| • Bethel | **15** |
| • Rhiwlas | **14** |
| • Dinorwig | **13** |
| • Penisarwaun | **12** |
| • Brynrefail | **11** |
| • Cwm-y-Glo | **9** |
| • Nant Peris | **7** |
| • Fachwen | **6** |
| • Ceunant | **5** |
| • Rhyd Ddu | **5** |
| • Betws Garmon | **4** |
| • Llanddeiniolen | **3** |
| • Arall | **3** |
| • Caeathro | **1** |
| • Seion | **1** |

# 5 Beth sy'n dda am Fro Peris?

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Peris. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Peris i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy'n dda am Fro Peris?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad. | **223** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant | **197** |
| • Treftadaeth a hanes gyfoethog yr ardal | **156** |
| • Mae'n ardal ddiogel | **129** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal | **116** |
| • Adnoddau iechyd yr ardal e.e. meddygfeydd lleol | **112** |
| • Darpariaeth addysg ac ysgolion da | **87** |
| • Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | **74** |
| • Llwybrau cerdded a beicio o safon | **54** |
| • Y potensial i ddatblygu'r sector ynni adnewyddadwy yn yr ardal | **51** |
| • Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai | **48** |
| • Mae'r ardal yn lân a thaclus | **42** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | **39** |
| • Traddodiad creadigol a chelfyddydol cyfoethog yr ardal | **21** |
| • Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal | **18** |
| • Mae nifer o weithgareddau cymdeithasol yn cymryd lle yn yr ardal | **13** |
| • Mae ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd ar gael i bobl ifanc yn lleol | **13** |
| • Mae cyfleusterau hamdden da yn yr ardal | **7** |

5.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn '**Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Fro Peris sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **38** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Peris. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (n=7); Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal (n=7); Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (n=5).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cysylltedd band eang | **3** |
| • Agosrwydd at ganolfannau gwasanaethau e.e. Caernarfon, Bangor a'r A55 | **3** |

5.3 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad A.

5.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Fro Peris?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Peris. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Peris i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd <u>ddim mor dda</u> am Fro Peris?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Problemau yn ymwneud a pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal | **172** |
| • Mae nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal | **167** |
| • Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol | **137** |
| • Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **98** |
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser yn lleol | **98** |
| • Mae nifer o dai yn yr ardal mewn cyflwr gwael a does dim digon o dai newydd fforddiadwy yn cael eu hadeiladu | **84** |
| • Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc ac i bobl hŷn yn yr ardal | **83** |
| • Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal | **77** |
| • Angen gwneud mwy i annog pobl ifanc i fod yn rhan o bwyllgorau lleol a cynghorau cymuned | **66** |
| • Mae'r economi leol yn fregus, nid oes digon o gefnogaeth i fusnesau ac mae siopau'n cau | **64** |
| • Diffyg llwybrau cerdded a beicio o safon ac sy'n ddiogel | **63** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn colli tir yn lleol | **56** |
| • Does dim canolfan neu gyfleuster cymunedol ym mhob pentref yn yr ardal e.e. Deiniolen | **46** |
| • Diffyg cydweithio rhwng mudiadau a chynghorau cymuned lleol | **43** |
| • Mae band eang a chysylltiad i'r we yn wael yn lleol | **41** |
| • Pryderon yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal yn yr ardal | **39** |
| • Diffyg twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal | **32** |
| • Digwyddiadau a gweithgareddau mawr yn cael eu canolbwyntio mewn rhai rhannau o'r ardal | **18** |
| • Pryderon am ddyfodol darpariaeth 6ed dosbarth yn yr ysgol uwchradd | **10** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd ddim mor dda am Fro Peris sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **108** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Peris. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Problemau yn ymwneud a pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal gan gynnwys ceir yn gyrru (n=25); Mae nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal (n=6); Diffyg twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal e.e. gwersylla ar dir cyhoeddus, diffyg adnoddau lleol i ymdopi ac ati (n=8); Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem (n=7); Diffyg llwybrau cerdded a beicio o safon ac sy'n ddiogel (n=7); Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol (n=5).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Materion ynghylch cyflenwad a darpariaeth tai fforddiadwy i'w prynu neu rhentu gan gynnwys darpariaeth tai neu llety gyda gofal i bobl hŷn | **11** |
| • Diffyg digwyddiadau a phrosiectau cymunedol | **5** |
| • Diffyg siopau a chyfleusterau eraill mewn rhai o bentrefi yn yr ardal | **4** |

6.3 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad A.

6.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Peris dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae’r tabl isod yn rhestru’r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Peris. Fel rhan o’r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Peris i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Thema | Nifer o weithiau ddaru’r thema cael ei ddewis |
|---|---|
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | **143** |
| • Cyflwyno deddfwriaeth i reoli’r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol | **143** |
| • Cynlluniau i wella rheolaeth parcio ar gyfer ymwelwyr a phobl leol | **118** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy’n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal | **103** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau’r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **88** |
| • Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio | **87** |
| • Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal – strydoedd glan, mwy o finiau, blodau stryd ac ati | **87** |
| • Cynlluniau i gefnogi busnesau i sefydlu a ffynnu yn lleol ac i greu gwaith a swyddi gwerth uchel | **82** |
| • Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | **81** |
| • Cynlluniau i ddarparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc a hŷn | **78** |
| • Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy’n hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant ac sy’n cefnogi dysgwyr yr iaith | **63** |
| • Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn gwella ffyrdd yr ardal | **56** |
| • Cynlluniau i daclo tlodi | **56** |
| • Cynlluniau i gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymunedau - bod yn rhan o grwpiau neu gynghorau cymuned ac ati | **53** |
| • Cynlluniau i wella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at eu gilydd | **50** |
| • Cynlluniau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol | **50** |
| • Uwchraddio’r is-adeiledd band eang | **44** |

| Thema | Nifer o weithiau ddaru'r thema cael ei ddewis |
|---|---|
| • Cynlluniau i hwyluso'r broses o alluogi cymunedau i gymryd rheolaeth o'u asedau lleol eu hunain er mwyn cyfarch anghenion yr ardal | **29** |
| • Cynlluniau i ddatblygu sgiliau a hyder ymysg aelodau cynghorau cymuned, grwpiau a mentrau cymdeithasol a hybu gwell cydweithio rhwng y grwpiau yma | **28** |
| • Cynlluniau i daclo problemau llifogydd | **23** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod',** derbyniwyd **59** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Peris. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol (n=5); Cynlluniau i gefnogi busnesau i sefydlu a ffynnu yn lleol ac i greu gwaith a swyddi gwerth uchel (n=5); Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol (n=4); Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal – strydoedd glan, mwy o finiau, blodau stryd ac ati (n=3); Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio (n=3); Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal (n=3); Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Sylwadau ynghylch cryfhau trefniadau cyfathrebu rhwng Cyngor Gwynedd a chymunedau, a llai o fiwrocratiaeth. | **4** |

7.3 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad A.

7.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau Bro Peris yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal Bro Peris.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

# Atodiad A

**Sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen ar gyfer Bro Peris.**

## Beth ydach chi yn hoffi am eich ardal?

- Siopau lleol da.
- Pobl cefnogol.
- Llefydd i gymdeithasu fel clybiau a bingo.
- Llefydd cerdded da.
- Tafarn.
- Safle bws agos.

## Beth ydach chi ddim yn hoffi am eich ardal?

- Trafnidiaeth cyhoeddus – ddim digon o fysiau rheolaidd (Llanrug.)
- Cyflwr palmentydd (Llanrug.)

## Beth ydach chi eisiau gweld yn digwydd yn eich ardal i neud o yn lle gwych i fyw?

- Mwy o feinciau i eistedd arnynt (Llanrug).
- Trafnidiaeth cyhoeddus mwy rheolaidd (Llanrug.)
- Gwell palmentydd i helpu gyda symudedd.